Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**UCD Sir Ddinbych**
**Ysgol Plas Cefndy**
**Ffordd Cefndy**
**Sir Ddinbych**
**LL18 2HG**
**Y Deyrnas Unedig**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2015**

## Cyd-destun

Mae UCD Sir Ddinbych yn uned cyfeirio disgyblion (UCD) pob oed i ddisgyblion sy'n dioddef anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae wedi bod trwy newidiadau sylweddol, yn bennaf o ran adeiladau. Mae'r UCD wedi'i lleoli ar ddau safle, ond mae ganddi strwythur rheoli llinell integredig, gydag un pwyllgor rheoli yn ei goruchwylio.

Mae'r prif safle yn Ysgol Plas Cefndy yn gartref i ddarpariaeth cyfnodau allweddol 3 a 4 i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, ynghyd â Milestones, sef darpariaeth cyfnodau allweddol 3 a 4 i ddisgyblion ag anawsterau emosiynol. Mae'r safle arall yn gartref i Stepping Stones, sef darpariaeth gynradd i ddisgyblion ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Nod yr UCD yw sicrhau bod pob disgybl yn mynd yn ôl i addysg brif ffrwd neu i addysg bellach, hyfforddiant neu waith. Darpariaeth fyrdymor yn bennaf yw Stepping Stones, ac mae disgyblion yn mynychu ar sail lleoliad wedi'i rannu gyda'u hysgol brif ffrwd.

Ar hyn o bryd, mae 47 o ddisgyblion ar y gofrestr. Panel cymedroli'r awdurdod lleol sy'n rheoli derbyniadau i'r UCD. Mae pob disgybl wedi'i gofrestru'n ddeuol gyda'i ysgol brif ffrwd. Gall pob disgybl fanteisio ar addysg amser llawn.

Mae chwe deg y cant o'r disgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae gan un deg saith y cant o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae pob un ohonynt ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig (AAA). Daw disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith yn bennaf. Ar hyn o bryd, dim ond 2% o'r disgyblion sy'n mynychu'r UCD sy'n 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol.

Arolygwyd yr UCD ddiwethaf ym Mai 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr UCD** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r UCD** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr UCD yn dda oherwydd:

- mae safonau cyflawniad yn dda a gwna disgyblion gynnydd da mewn dysgu;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu rheoli eu hymddygiad gydag amser;
- mae'r profiadau dysgu'n cael eu paru'n dda ag anghenion, diddordebau a galluoedd disgyblion; ac
- mae'r partneriaethau gyda rhieni, ysgolion prif ffrwd a'r awdurdod lleol er mwyn ailintegreiddio disgyblion yn y ddarpariaeth brif ffrwd yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r UCD yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth, y staff a'r bwrdd rheoli'n rhannu gweledigaeth glir;
- mae cysylltiadau cryf â gwasanaeth cymorth ymddygiad yr awdurdod lleol a phartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau arbenigol;
- mae arweinwyr yn gosod targedau heriol ac mae ganddynt flaenoriaethau clir ar gyfer gwella; ac
- mae gan arweinwyr hanes llwyddiannus o reoli newid.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod trefniadau ar gyfer asesu yn gyson ar draws yr UCD

A2 Gwella amgylchedd dysgu cyfnod allweddol 4 a threfniadaeth yr ystafelloedd yng nghyfnod allweddol 3

A3 Ehangu'r ymgynghori yn y broses hunanarfarnu i gynnwys yr holl brif randdeiliaid

A4 Sicrhau bod y toiledau a ddarperir yn Ysgol Plas Cefndy yn bodloni gofynion rheoleiddiol

A5 Gwella'r defnydd ar ddata i lywio'r gwaith o osod targedau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol gan ddisgyblion yn yr UCD. Dechreuant yn yr UCD gydag ychydig iawn o hyder, cânt drafferth rheoli eu hymddygiad ac mae ganddynt hanes o bresenoldeb gwael. O ganlyniad i lefel uchel y cymorth a'r anogaeth gan staff, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu hyder a'u presenoldeb. Gwnânt gynnydd da gydag amser yn unol â'u hoedran, eu gallu a'u hanghenion dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y ddarpariaeth gynradd yn Stepping Stones yn ymateb yn dda i ethos meithringar y ganolfan a datblygant yr hyder a'r medrau cymdeithasol y mae eu hangen i ddychwelyd yn llwyddiannus i'w hysgol gynradd, ar sail amser llawn. Y llynedd, cafodd 94% o ddisgyblion o Stepping Stones a 55% o ddisgyblion o gyfnod allweddol 3 eu hailintegreiddio'n llwyddiannus i leoliadau prif ffrwd. Mae hwn yn llwyddiant sylweddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ddarpariaeth uwchradd yn datblygu'r medrau sy'n angenrheidiol i bontio'n llwyddiannus i ysgolion prif ffrwd, colegau addysg bellach neu leoliadau gwaith. Y llynedd, fe wnaeth 88% o ymadawyr barhau mewn addysg amser llawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill amrywiaeth o gymwysterau sy'n briodol i'w diddordebau a'u galluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau Lefel Mynediad CBAC, TGAU a chymwysterau galwedigaethol.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr UCD â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau grwpiau o ran perfformiad gydag amser oherwydd natur anghenion dysgu'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr UCD yn cyflawni'n dda yn erbyn eu targedau. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniadau bechgyn a merched, disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd yng ngofal eu hawdurdod lleol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ac yn cymhwyso'r rhain yn dda mewn amrywiaeth o bynciau a lleoliadau, gan gynnwys ysgolion prif ffrwd partner.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4, gan gynnwys y rhai yng nghanolfan Milestones, yn datblygu medrau ysgrifennu annibynnol sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae disgyblion mwy galluog yn ysgrifennu at amrywiaeth fawr o ddibenion a chynulleidfaoedd. Maent yn trefnu ac yn cyflwyno'u syniadau'n glir ac yn ystyried cwestiynau ac atebion drostynt eu hunain. Defnyddiant atalnodi a sillafu'n gywir mewn darnau estynedig o ysgrifennu creadigol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Stepping Stones yn defnyddio ystod briodol o fedrau rhif. Dangosant ddealltwriaeth dda o werth lle a defnyddiant bedair rheol rhif

yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn defnyddio offer i fesur onglau'n gywir ac yn gwybod am nodweddion gwahanol fathau o driongl.

Yn Stepping Stones, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gywir a defnyddiant eu dealltwriaeth o'r testun i lunio casgliadau priodol ac awgrymu sut mae'r cymeriadau'n teimlo.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Milestones a Stepping Stones yn gwneud cynnydd da iawn yn eu gallu i weithio gydag eraill a datrys problemau. Gweithiant ar y cyd mewn grwpiau ac mewn parau, ac mae llawer ohonynt hefyd yn gweithio'n dda yn annibynnol. Maent yn gwrando ar eraill ac yn ymateb yn dda iddynt, ac yn cyfrannu'n dda at drafodaethau grŵp. Mae disgyblion mwy galluog yn defnyddio medrau meddwl yn dda a gofynnant gwestiynau meddylgar i ymestyn eu dealltwriaeth a llunio cysylltiadau rhwng pynciau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn gwersi Saesneg, mae disgyblion yn Milestones yn cyfeirio at yr hyn a ddysgont mewn addysg grefyddol. Maent yn holi am gredoau prif grefyddau'r byd a gallant nodi sut mae'r rhain yn effeithio ar y ffordd y mae credinwyr yn byw.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn Stepping Stones ac ychydig ohonynt yn Ysgol Plas Cefndy yn gwneud cynnydd priodol o ran defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol wrth gyfathrebu â staff a'i gilydd.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr UCD yn gadarnhaol am eu gwaith ac yn ymateb yn dda i staff ac ymwelwyr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae disgyblion yn Milestones yn gofalu am ardd ac yn tyfu cynnyrch y maent yn ei ddefnyddio i goginio prydau iach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd. Mae disgyblion iau yn gwneud ymarferion ymestyn y cyhyrau yn ddyddiol yn yr ystafell ddosbarth ac mae'r disgyblion hŷn yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau addysg awyr agored, gan gynnwys criced a golff.

Mae disgyblion yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn pryderu ac maent yn dangos llawer o ymddiriedaeth yn y staff. Ymatebant yn dda i ystod eang o weithgareddau priodol i oedran sy'n delio â materion sy'n effeithio arnynt. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn trafod materion perthnasol fel trais yn y cartref a diogelwch ar y rhyngrwyd. Ar draws yr UCD, mae disgyblion yn dysgu strategaethau i'w cadw'u hunain yn ddiogel. Mae'r rhain yn cynnwys pwysigrwydd parchu gofod personol ac ymddygiad priodol gartref ac yn gyhoeddus.

Mae llawer o ddisgyblion â hanes gwael o bresenoldeb yn eu hysgol brif ffrwd yn gwneud cynnydd da iawn o ran eu presenoldeb. Fodd bynnag, mae ychydig ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn parhau i fynychu'n afreolaidd. Mae'r presenoldeb isel hwn yn cael effaith negyddol ar eu safonau a'u lles.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn ystod cyfnodau heb strwythur. Dangosant barch tuag at eraill, er enghraifft mewn digwyddiad arbennig i goffáu'r Cadoediad ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb mewn gwersi ac yn gofyn cwestiynau er mwyn gwella'u dealltwriaeth. Ymatebant yn gadarnhaol iawn i ddisgwyliadau uchel y staff a dangosant ymagwedd aeddfed at eu dysgu.

O'r Cyfnod Sylfaen ymlaen, mae disgyblion yn dysgu sut i wneud dewisiadau priodol. Mae bron pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn defnyddio blwch 'Llais y Disgybl'. Caiff hwn ei ddefnyddio ar gyfer pleidleisiau cudd, a hefyd i fynegi awgrymiadau neu bryderon unigol. Fodd bynnag, yn anaml iawn y mae disgyblion yn cyfrannu at benderfyniadau ar faterion sy'n eu heffeithio yn yr UCD.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol gwerthfawr, er enghraifft dadansoddi effaith sbwriel ar yr amgylchedd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r UCD yn darparu ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu i bob disgybl. Caiff y cwricwlwm ei addasu'n dda i fodloni anghenion disgyblion unigol. Er enghraifft, mae'r UCD yn cynnig cyfleoedd i'r dysgwyr mwy agored niwed ddysgu am fyd gwaith trwy weithio ar safle'r UCD.

Mae ffocws cryf ar ailintegreiddio disgyblion yn Stepping Stones ac yng nghyfnod allweddol 3 yn Ysgol Plas Cefndy. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi hyn yn dda iawn. Mae disgyblion yn rhannu eu hamser rhwng yr UCD a'r ysgolion prif ffrwd ac yn cynyddu eu hamser yn yr ysgol brif ffrwd yn raddol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn magu'r hyder y mae eu hangen arnynt i ddychwelyd i'r ysgol ac aros yno.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn drylwyr. Mae polisi cynhwysfawr i ategu'r gwaith hwn. Mae disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn a'u trosglwyddo i wahanol sefyllfaoedd. Mae prosiect Clwb Pêl-droed Wrecsam yn adnodd gwerthfawr ac yn symbylu disgyblion yn llwyddiannus iawn i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd a mabwysiadu ffyrdd iach o fyw.

Mae ystod eang y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn gryfder yn y cwricwlwm. Er enghraifft, mae cyfleoedd i weithio gyda'r fyddin, cael profiad o ddringo a chymryd rhan yng ngweithgareddau her Gwobr Dug Caeredin yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau cyfathrebu, datrys problemau a gweithio mewn tîm.

Mae cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol priodol ar draws pob cyfnod allweddol. Mae disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i ddod i wybod am faterion pwysig a allai effeithio ar eu bywyd, fel hawliau dynol, digartrefedd a hiliaeth, a myfyrio arnynt.

Mae Eco-bwyllgor effeithiol yn Milestones. Fodd bynnag, nid yw'r UCD wedi datblygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gyson ar draws y cwricwlwm.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cydweithio'n dda i gynnig gwersi ysgogol, gyda digon o adnoddau. Maent yn gwybod beth yw anghenion unigol eu disgyblion ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ynghylch gwaith ac ymddygiad disgyblion. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dysgu i reoli eu hymddygiad ac yn ailintegreiddio'n llwyddiannus i leoliadau prif ffrwd.

Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus. Gosodant amcanion dysgu clir a defnyddiant amrywiaeth fawr o strategaethau ac adnoddau addysgu sy'n cyfateb yn dda i anghenion a galluoedd y disgyblion.

Lle bo'r addysgu yn rhagorol, mae athrawon yn defnyddio holi yn dda iawn, sy'n galluogi disgyblion i adalw ac ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Darparant adborth llafar anogol i ddisgyblion ar eu gwaith a'u hymddygiad. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gynnal eu ffocws a chyflawni'n dda mewn gwersi. Mae athrawon yn Stepping Stones yn defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau asesu mewn gwersi i annog disgyblion i farnu eu cynnydd ac ystyried sut y gallent wella. Mae trefniadau effeithiol i asesu a chofnodi cynnydd disgyblion.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn brydlon a bron bob amser yn cynnwys sylwadau cadarnhaol i annog disgyblion. Fodd bynnag, nid yw marcio'n gyson ar draws yr UCD ac nid yw bob amser yn amlinellu'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella. Mae cyfleoedd yn brin i ddisgyblion yn y ddarpariaeth cyfnodau allweddol 3 a 4 yn Ysgol Plas Cefndy fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a dysgu pobl eraill.

Caiff rhieni ac ysgolion partner wybod y ddiweddaraf am gynnydd disgyblion trwy adroddiadau rheolaidd, llawn gwybodaeth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr UCD ystod gynhwysfawr o bolisïau i gefnogi iechyd a lles yr holl ddisgyblion. Mae staff yn defnyddio ystod o strategaethau wedi'u cynllunio'n ofalus, fel 'munud i feddwl', i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol, a diwylliannol yr holl ddisgyblion.

Caiff rhaglenni eu teilwra a'u haddasu i fodloni anghenion unigol. Mae gan bob plentyn ystod o dargedau wythnosol priodol. Mae disgyblion a rhieni'n helpu i osod y targedau hyn a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae rhieni'n cael gwybodaeth fanwl am gynnydd eu plentyn bob dydd.

Mae cyfathrebu'n nodwedd gref o'r ddarpariaeth. Mae'r holl staff yn cydgysylltu'n rheolaidd i sicrhau bod y cymorth i ddisgyblion yn gyson. Mae'r dull tîm hwn yn rhoi sicrwydd a hyder i ddisgyblion. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y ffurfiwyd cyngor yr ysgol ac mae'r trefniadau i ddisgyblion gael dweud eu dweud am faterion sy'n effeithio arnynt wedi'u tanddatblygu.

Mae rhaglen briodol o addysg bersonol a chymdeithasol, wedi'i chynllunio'n dda, yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion am ryw a pherthnasoedd, a chamddefnyddio sylweddau. Lle bo'r angen, mae staff yn rhoi cymorth ychwanegol i fodloni anghenion penodol wrth iddynt godi. Fel hyn, mae disgyblion hynod agored i niwed yn cael yr help y mae ei angen arnynt yn ystod argyfyngau.

Mae'r UCD yn defnyddio cymhellion a gwobrau yn dda i wella presenoldeb ac ymddygiad.

Mae trefniadau effeithiol gan yr UCD i nodi anghenion ychwanegol disgyblion. Mae cynlluniau ymddygiad unigol priodol gan yr holl ddisgyblion ac mae cynlluniau addysg unigol manwl gan y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff y rhain eu monitro'n fanwl. Mae'r UCD yn trefnu cyngor a chymorth arbenigol pan fo gan ddisgyblion anghenion penodol.

Mae trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r UCD yn gymuned gynhwysol, sy'n rhoi gwerth ar amrywiaeth ac sy'n sicrhau bod modd i'r holl ddisgyblion fanteisio ar y cwricwlwm a gweithgareddau dysgu ehangach yn gyfartal.

Mae darpariaeth Stepping Stones wedi'i lleoli ar safle diogel gydag ardal fechan o laswellt ac ardal chwarae ag arwyneb caled. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig lle dysgu ychwanegol defnyddiol ar gyfer addysg gorfforol a gemau yn yr awyr agored. Caiff yr adeiladau eu cynnal a chadw'n dda iawn ac maent yn ardaloedd llachar, deniadol, gydag adnoddau da ynddynt. Mae'n cynnig amgylchedd dysgu ysgogol i ddisgyblion.

Mae'r adeiladau a'r tir ar safle Ysgol Plas Cefndy yn ddiogel hefyd ac yn cael eu cynnal yn dda. Yn fewnol, mae'r adeiladau'n addas ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae disgyblion yng ngrŵp Milestones ac yng nghyfnod allweddol 3 yn gweithio mewn amgylcheddau deniadol a chroesawgar. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn elwa ar amgylchedd mor groesawgar. Mae enghreifftiau o ddodrefn wedi torri, carpedi â staeniau arnynt a difrod i ddrysau a chloeon.

Mae'r toiledau a ddarperir ar y safle hwn yn anfoddhaol, gan fod disgwyl i ddisgyblion a staff gwrywaidd a benywaidd yn ardal addysgu cyfnod allweddol 4 rannu'r un cyfleusterau. Nid oes biniau hylendid wedi'u cynnwys yr holl doiledau a ddefnyddir gan ferched.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan reolwyr weledigaeth glir a phriodol ar gyfer gwaith yr UCD, sy'n rhoi pwyslais mawr ar wella deilliannau disgyblion a'u hailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd. Mae'r holl staff yn rhannu'r weledigaeth hon.

Mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cydweithio'n dda fel tîm cydlynol i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu cyflwyno'n effeithiol. Mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, sydd wedi'u deall yn dda. Mae rheolwyr yn eu hannog i fyfyrio ar eu harfer a rhannu'r cyfrifoldeb am gynllunio i wella'r ysgol.

Mae'r pwyllgor rheoli'n rhoi cymorth da i'r pennaeth. Mae'r aelodau'n gyfarwydd iawn â'r UCD a'i disgyblion ac yn cael adroddiadau rheolaidd, cynhwysfawr am waith yr UCD. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys data am gyflawniadau, gwaharddiadau a phresenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor rheoli'n arfarnu'r data a'r camau sy'n deillio o hynny sy'n cyfrannu at wella deilliannau disgyblion. Nid yw rôl y pwyllgor rheoli o ran cynnig her i'r UCD wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae'r UCD yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Mae hyn yn cynnwys y fframwaith llythrennedd a rhifedd a datblygu gallu ysgolion prif ffrwd i gefnogi disgyblion agored i niwed trwy raglen hyfforddi effeithiol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu o ansawdd da. Mae'n arfarnol ac yn gynhwysfawr ac yn cynnwys data perthnasol. Mae cysylltiadau clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol. Mae'r cynllun yn nodi blaenoriaethau a chamau priodol yn glir ac mae'n cynnwys amserlenni clir a chyfrifoldebau penodol. Fe wnaeth athrawon ac ysgolion prif ffrwd gymryd rhan lawn yn y broses hunanarfarnu a chawsant adborth. Fodd bynnag, roedd y broses ymgynghori yn rhy gul. Ni ymgynghorwyd â'r pwyllgor rheoli, y cynorthwywyr addysgu, rhieni a gofalwyr, disgyblion a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r UCD yn cydnabod bod angen gwella'r defnydd ar ddata i lywio gwella'r ysgol. Mae rheolwyr yn casglu ystod ddefnyddiol o ddata ar ddeilliannau disgyblion a gallant nodi pa mor dda y mae unigolion a grwpiau penodol yn gweithio. Mae enghreifftiau o ddadansoddi gofalus, fel canlyniadau arholiadau mewn pynciau unigol, sy'n arwain at gamau i wella canlyniadau. Fodd bynnag, mae casglu a dadansoddi data yn anghyson ar draws yr UCD. Nid yw rheolwyr yn defnyddio data'n ddigon gofalus i fesur llwyddiant a gosod targedau ar gyfer gwella'r ysgol gyfan.

Mae systemau ar gyfer monitro perfformiad staff wedi'u hymgorffori'n dda. Mae amcanion rheoli perfformiad yn cysylltu'n dda â chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol, cynllun gwella'r UCD a chynllun blaenoriaethau gwasanaethau corfforaethol. Mae'r holl amcanion yn perthyn yn ofalus iawn i wella deilliannau disgyblion.

Mae rheolwyr yn arsylwi gwersi'n rheolaidd. Caiff athrawon adborth ysgrifenedig gwerthfawr fel y gellir pennu targedau ar gyfer gwella. Mae archwiliad rheolaidd o lyfrau, sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion, yn cefnogi'r broses hon yn dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth yr UCD ag ysgolion prif ffrwd yn gryfder. Mae'r bartneriaeth hon yn ategu cyfradd ailintegreiddio uchel y disgyblion yn dda iawn. Mae staff yr UCD yn modelu addysgu ar gyfer staff ysgolion prif ffrwd ac yn rhoi strategaethau defnyddiol iddynt i'w helpu i fodloni anghenion disgyblion unigol. Mae ysgolion partner yn gwerthfawrogi'r cyfraniad hwn yn fawr.

Mae'r UCD yn gweithio'n dda gydag ystod eang o bartneriaid allanol i wella'r deilliannau i ddysgwyr agored i niwed. Er enghraifft, mae staff yr UCD yn elwa ar arbenigedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wrth ddatblygu strategaethau rheoli ymddygiad sy'n galluogi disgyblion agored i niwed i barhau mewn lleoliadau ysgol.

Mae cysylltiad agos rhwng staff a rhieni a gofalwyr, sydd o'r farn eu bod yn cael cefnogaeth ac yn gallu mynegi eu pryderon pan fo angen. Maent yn elwa o gymryd rhan mewn cwrs defnyddiol iawn ar reoli ymddygiad, wedi'i gyflwyno gan staff yr UCD.

Mae partneriaeth gadarn â dau goleg lleol a'r rhwydwaith dysgu 14-19 oed. Mae hyn wedi cynyddu cyfleoedd disgyblion i gael profiad gwaith, wedi ehangu gweithgareddau'r cwricwlwm ac wedi'u helpu i symud ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant.

Mae pennaeth yr UCD wedi datblygu cysylltiadau cadarn ag UCDau eraill ar draws gogledd Cymru. Mae'r fforwm hwn yn rhannu arfer dda ac wedi helpu rhoi'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ar waith yn llwyddiannus yn yr UCD.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff yr UCD ei staffio'n briodol i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae staff yn gymwys iawn a chânt eu defnyddio'n dda i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Gallant fanteisio ar amrywiaeth eang o hyfforddiant mewnol ac allanol priodol. Mae hyn yn cynnwys cyfle i ymestyn eu cymwysterau TGAU eu hunain ochr yn ochr â'r disgyblion.

Defnyddir adnoddau a chyfleusterau o ansawdd uchel yn effeithiol i gyfateb i ddiddordebau a galluoedd yr holl ddysgwyr.

Mae'r amgylchedd dysgu'n cael ei ddefnyddio'n dda, gan wneud y defnydd gorau o'r lle a'r cyfleusterau sydd ar gael. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 3 yn Ysgol Plas Cefndy, os oes angen i aelod staff fynd â disgybl o'r ystafell ddosbarth, nid yw hyn yn bosibl heb darfu ar eraill. Mae staff yn cael amser priodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae ystafelloedd staff/ystafelloedd paratoi gyda digon o adnoddau ynddynt ar y ddau safle yn eu galluogi i gynllunio'u gwaith yn ofalus a darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu a phrofiadau personol i ddisgyblion.

Mae’r UCD yn rheoli ei staff a’i chyllid yn effeithiol.  Mae’r pennaeth yn gweithio’n effeithiol gyda’r awdurdod lleol i graffu’n ofalus ar y gyllideb.  Mae hyn, ynghyd â’r deilliannau da i ddisgyblion, yn golygu bod yr UCD yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

*mae’n dynodi’r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.*

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 25 | 19 | 3 | 3 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 76% | 12% | 12% | |
| | | 76% | 12% | 12% | |
| The school deals well with any bullying. | 25 | 10 | 9 | 6 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 40% | 36% | 24% | |
| | | 40% | 36% | 24% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 24 | 17 | 5 | 2 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 71% | 21% | 8% | |
| | | 71% | 21% | 8% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 25 | 10 | 6 | 9 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 40% | 24% | 36% | |
| | | 40% | 24% | 36% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 25 | 11 | 9 | 5 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 44% | 36% | 20% | |
| | | 44% | 36% | 20% | |
| I am doing well at school | 25 | 13 | 3 | 9 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 52% | 12% | 36% | |
| | | 52% | 12% | 36% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 24 | 20 | 2 | 2 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 83% | 8% | 8% | |
| | | 83% | 8% | 8% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 25 | 20 | 2 | 3 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 80% | 8% | 12% | |
| | | 80% | 8% | 12% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 25 | 4 | 14 | 7 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 16% | 56% | 28% | |
| | | 16% | 56% | 28% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 25 | 16 | 7 | 2 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 64% | 28% | 8% | |
| | | 64% | 28% | 8% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 25 | 11 | 9 | 5 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 44% | 36% | 20% | |
| | | 44% | 36% | 20% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 25 | 9 | 6 | 10 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 36% | 24% | 40% | |
| | | 36% | 24% | 40% | |

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 o ymatebion.  Ni ddangosir unrhyw ddata.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |
| Claire Yardley | Arolygydd Tîm |
| Justine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Michelle Hatcher | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ceri Ellis | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**: anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**: anhwylder gorfywiogrwydd a diffyg canolbwyntio

**ADP**: anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**: anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**: Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy'n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**: adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**: Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**: Cod Ymarfer

**NAS**: nam amlsynhwyraidd

**NC**: nam ar y clyw

**NG**: nam ar y golwg